

**CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED  
LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL**

**Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a  
gynhaliwyd am 7.30 pm ar nos  
Fawrth, y 7fed o Dachwedd 2017 yn  
yr Ystafell Ddarllen, Llanon.**

**Minutes of a meeting of the Council  
held at 7.30 pm on Tuesday, 7<sup>th</sup>  
November 2017 at the Reading Room,  
Llanon.**

Yn bresennol:

Cadeirydd: Y Cynghorydd Lodwick Lloyd; Y Cynghorwyr Sheila Davies, Jim Hughes, Lowri Jones, Dennis Morgan, Gwenno Piette, Aled Roberts, Bryan Tomlins, Philip Tomlins a Harriet Sinclair. Y Cynghorydd Sir Dafydd Edwards  
Mr Denfer Morgan (Clerc)

Present:

Chairman: Councillor Lodwick Lloyd; Councillors Sheila Davies, Jim Hughes, Lowri Jones, Dennis Morgan, Gwenno Piette, Aled Roberts, Bryan Tomlins, Philip Tomlins and Harriet Sinclair. County Councillor Dafydd Edwards  
Mr Denfer Morgan (Clerc)

- |  |  |
|--|--|
| <p><b>68 Cofnodion o'r Cyfarfod Misol a gynhaliwyd ar y 3ydd o Hydref 2017</b><br/>Cadarnhawyd cofnodion o Gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar y 3ydd o Hydref 2017 fel rhai cywir, yn amodol ar:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>a) newid y cyfeiriad at ddyddiad y cyfarfod diwethaf yn fersiwn Saesneg Cofnod 57 i'r 5ed o Fedi; a</li><li>b) newid y cyfeiriad at y Cynghorydd Lowri Jones yng Nghofnod 59 i'r Cynghorydd Gwenno Piette.</li></ul> | <p><b>68 Minutes of the Monthly Meeting held on 3<sup>rd</sup> October 2017</b><br/>The Minutes of the Meeting of the Council held on 3<sup>rd</sup> October 2017 were confirmed as being a correct record, subject to:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>a) amending the reference to the date of the last meeting in the English version of Minute 57 to 5<sup>th</sup> September; and</li><li>b) amending the reference to Councillor Lowri Jones in Minute 59 to Councillor Gwenno Piette.</li></ul> |
| <p><b>69 Materion yn codi o'r Cofnodion</b></p>  | <p><b>69 Matters arising from the Minutes</b></p>  |
| <p><b>69.1 Cwn yn Baeddu</b><br/>Dywedodd y Cynghorydd Sheila Davies mai'r arwyddion mwyaf addas oedd y rheiny a gynhyrchir gan Gyngor Sir Ceredigion ac sy'n cyfeirio at ddirwy o £1,000. Caiff rhsgod o wybodaeth ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.</p>   | <p><b>69.1 Dog Fouling</b><br/>Councillor Sheila Davies stated that the most appropriate signs were the ones produced by Ceredigion County Council and which referred to the £1,000 fine. Further information would be provided at the next meeting.</p>   |
| <p><b>69.2 Meinciau</b><br/>Nodwyd fod Meurig Lloyd yn paratoi rhestr o'r gwaith a oedd ei angen arnynt ac y disgwylyd amcanbris am y gwaith.</p>  | <p><b>69.2 Benches</b><br/>It was noted that Meurig Lloyd was preparing an inventory of the work needed and that an estimate for the work was awaited.</p>   |
| <p><b>70 Materion yn Ymwneud ag Eiddo – Archwiliad Misol</b><br/>Fe gyflwynodd y Cynghorydd Lowri Jones ei hadroddiad a chyfeiriodd at gyflwr yr arwyneb diogelwch mewn rhannau arbennig o'r lle chwarae.</p>  | <p><b>70 Property Matters – Monthly Inspection</b><br/>Councillor Lowri Jones presented her report following her inspection and referred to the condition of the safety matting in certain areas of the playground.</p>  |

Gofynwyd i'r Clerc sichau fod y gwaith a oedd i'w wneud gan y Cyngor Sir yn cynnwys unrhyw atgyweiriadau angenrheidiol i'r arwyneb diogelwch.

The Clerk was requested to ensure that any necessary repairs to the safety matting was included in the work to be undertaken by the County Council.

**71 Hysbysfwrdd ar gyfer Llansantffraed**  
Rhoddwyd ystyriaeth i bedwar pris a dderbyniwyd am ddarparu hysbysfwrdd i'w osod yng Nghylch y Llan, Llansantffraed.

**PENDERFYNWYD** dewis hysbysfwrdd powdrliw ac i dderbyn pris Greenbarnes yn y swm o £1862.48 + VAT oherwydd ei fod yn ymddangos yn gynnyrch mwy proffesiynol.

**71 Noticeboard for Llansantffraed**  
Consideration was given to four quotes received for the provision of a noticeboard to be erected at Cylch y Llan, Llansantffraed.

It was **RESOLVED** to opt for a powder-coated noticeboard and to accept the quotation of Greenbarnes in the sum of £1862.48 + VAT as it appeared to be a more professional product.

**72 Maes Chwarae Llansantffraed**  
Nodwyd

a) fod ffens y ffin wedi'i drwsio; a

b) bod y cyfarpar chwarae heb eu trwsio hyd yn hyn.

**72 Llansantffraed Playground**

It was noted

a) that the boundary fence had been repaired; and

b) the repairs to the play equipment were awaited.

**73 Y Chalet a'r Llain**  
Nodwyd fod yr arwydd ar y ffordd i'r llain wedi'i osod a chytunwyd newid yr arwydd ar y llain ei hun i gyfleu dim parcio o gwbl.

Ni chlywyd rhagor hyd yn hyn ynghylch cyfraniadau gwirfoddol posib ar gyfer codi chalet newydd.

**73 The Chalet and the Slang**  
It was noted that the sign on the way to the slang had been erected and it was agreed to amend the sign on the slang to read no parking whatsoever.

Nothing further had been heard to date about the possible voluntary contributions to the construction of a new chalet.

**74 Materion Ariannol**  
**PENDERFYNWYD:**  
i) talu'r canlynol:  
Vision ICT (Ffi Gwefan Blynyddol) £150  
Swyddfa Archwilio Cymru  
(Archwiliad Allanol 2016-17) £198  
Cyngor Sir Ceredigion – Taliad  
Blynyddol Prydles y Cyrtiau Tennis £5  
M R Lloyd (Trwsio Ffens y Maes Chwarae) £250  
M R Lloyd (Codi Arwydd) £165  
Bulbiau i'w Plannu £20.96

ii) cyfrannu £100 tuag at gynhyrchiad Ysgol Gyfun Aberaeron o 'Hairspray'.

iii) cyfrannu £100 tuag at Apêl Cerbyd Ymatebydd Cyntaf a drefnwyd gan

**74 Finance Matters**  
It was **RESOLVED:**  
i) to pay the following:  
Vision ICT (Annual Website Fee) £150  
Wales Audit Office (2016-17 External Audit) £198  
Ceredigion County Council – Tennis Courts Annual Lease £5  
M R Lloyd (Repair to Playground Fence) £250  
M R Lloyd (Erection of Sign) £165  
Bulbs for planting £20.96

ii) to contribute £100 to the Aberaeron Comprehensive School production of 'Hairspray'.

iii) to contribute £100 to the Aberaeron Town Improvements Committee First

Bwyllgor Gwelliannau Tref Aberaeron.

Responder Vehicle Appeal.

**75 Cyflwyno Cyfyngiad Cyflymder 20 mya ar heolydd llai Llanon**

Nodwyd fod y Cyngor Sir wedi cael ei hysbysu o'r cais i gynnwys Heol y Môr yn y cynigion ac nad oedd dim byd wedi'i glywed oddi wrth Lywodraeth Cymru ynghylch yr A487.

**75 Introduction of 20 mph speed limits on the minor roads of Llanon**

It was noted that the County Council had been advised of the request to include Heol y Môr in the proposals and that nothing had been heard to date from Welsh Government with regard to the A487.

**76 Adborth o'r Digwyddiad Ymgynhori PENDERFYNWYD** cytuno'r canlynol:

- a) Cyfrannu swm o £200 tuag at y gost o gynhyrchu dau rhifyn cyntaf y cylchlythyr cymunedol arfaethedig.
- b) Cytuno treialu am gyfnod o dri mis, yn cychwyn yn Ionawr 2018, trefnu cymhorthfeydd aelodau, gyda dau Gynghorydd yn bresennol ar sail rota, ar Sadwrn ola'r mis.
- c) Nodi bod materion eraill a godwyd yn cael eu dilyn i fyny.

**76 Feedback from the Consultation Event** It was **RESOLVED** to agree the following:

- a) To contribute a sum of £200 towards the cost of producing the first two editions of the proposed community newsletter.
- b) To agree, for a trial period of three months commencing in January 2018, holding member surgeries, with two Councillors present on a rota basis, on the last Saturday of each month.
- c) To note that other matters raised were being progressed.

**77 Adolygiad o Gynghorau Bro a Thref**

Cyfeiriodd y Clerc at gyhoeddi dwy ddogfen a hefyd at ddigwyddiad ymgynhori a drefnwyd gan Un Llais Cymru ar y 4ydd o Ragfyr yn San Cler. **PENDERFYNWYD** awdurdodi'r Clerc i fynd i'r digwyddiad ymgynhori ac i adrodd ymhellach ar y mater yn y cyfarfod nesaf.

**77 Review of Town and Community Councils**

The Clerk referred to the publication of two documents and also to a consultation event being organised by One Voice Wales on 4<sup>th</sup> December at St. Clears. It was **RESOLVED** to authorise the Clerk to attend the consultation event and to report further on the matter at the next meeting.

**78 Unrhyw Fater Arall**

*Y Cynghorydd Bryan Tomlins*

- a) Nid oedd y golau stryd ar yr A487 y tu allan i Carlton House yn gweithio o hyd. Gofynwyd i'r Clerc gysylltu unwaith eto gydag'r Asiantaeth Cefnffyrdd.
- b) Roedd person wedi cael codwm unwaith et oar dir sy'n cael ei ddatblygu yn Stryd y Neuadd a gofynwyd i'r Cynghorydd Sir Dafydd Edwards ganfod gofyniadau'r caniatâd cynllunio mewn perthynas a'r gwaith safle.  
*Y Cynghorydd Dennis Morgan*
- c) O ran coeden Nadolig eleni:
  - Gofynwyd i'r Cynghorydd Dennis Morgan ei brynu
  - Gofynwyd i'r Clerc brynu

**78 Any Other Business**

*Councillor Bryan Tomlins:*

- a) The street light on the A497 outside Carlton House was still not working. The Clerk was requested to contact the Trunk Road Agency again.
- b) A person had fallen again on land being developed in Stryd y Neuadd and County Councillor Dafydd Edwards was requested to ascertain the requirements of the planning permission with regard to site works.  
*Councillor Dennis Morgan:*
- c) With regard to this year's Christmas tree:-
  - Councillor Dennis Morgan was requested to buy
  - The Clerk was requested to buy

goleuadau newydd a thorwr  
cylched

- Gwirfoddolodd y Cynghorydd Philip Tomlins ddarparu dwythell rwbwr
- Gofyn i GRhA yr Ysgol Gynradd i ddarparu diodydd a'r Cynghorydd Bryan Tomlins y mins peis
- Y digwyddiad i'w gynnal ar nos Lun 4ydd Rhagfyr ar dir Capel Seilo

d) Cytunwyd gofyn i'r Cyngor Sir am amcanbris ar gyfer gosod golau stryd ar dro ar leoliad a amlinellwyd i'r Cyngor ar y ffordd i Bennant

*Y Cynghorydd Philip Tomlins*

e) Mewn ateb i gwestiwn, fe fu i'r Cynghorydd Sir Dafydd Edwards gadarnhau fod yr holl oleuadau stryd newydd o'r math LED

*Y Cynghorydd Harriet Sinclair*

f) Cytunwyd bod ytaflen y Cyngor Sir ar Gasglu Gwastraff yn cael ei roi ar yr hysbysfwrdd

*Y Cynghorydd Jim Hughes*

g) Cytunwyd gofyn i'r Clerc ddwyn gerbron y Cyngor Sir tyfiant yn gorhngian dros Heol Llain Prysgr

h) Cytunwyd trefnu torri porfa ar ochr y ffordd ar Stryd yr Eglwys, fel a ddisgrifiwyd yn y cyfarfod.

new lights and a circuit breaker

- Councillor Phil Tomlins volunteered to provide rubber ducting for the lead
- The Primary School PTA to be requested to provide the drinks and Councillor Bryan Tomlins the mince pies
- The event to be held on Monday 4<sup>th</sup> December at Capel Seilo

d) It was agreed to request the County Council to provide an estimate for providing a street light on a bend at a location identified to the Council on the road to Pennant

*Councillor Philip Tomlins*

e) In reply to a query, County Councillor Dafydd Edwards confirmed that all new street lights being installed by the County Council were LED

*Councillor Harriet Sinclair*

f) It was agreed that the County Council Waste Collection consultation leaflet be placed on the noticeboard.

*Councillor Jim Hughes*

g) It was agreed to request the Clerk to report overhanging growth at Heol Llain Prysgr to the County Council.

h) It was agreed to arrange for grass on a highway verge on Stryd yr Eglwys, as described at the meeting, to be cut.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30 p.m.

The meeting concluded at 9.30 p.m.